pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Chwefror 2024 Rhif 496




Mae deisebau yn gallu gweithio! – tud 6

tud 4/5 Ysgol Tal-y-bont
tud 7 CFfI 70 oed
tud 9 Clwb Hen Beiriannau
tud 11 Bwca

# Darganfod Trysor

Bydd trigolion Tal-y-bont yn gyfarwydd iawn â gweld dyn yn sefyll yng nghanol cae lleol gyda theclyn yn debyg i hwfer yn ei law. Ond nid glanhau'r cae mae Peter Nicholas, Tŷ Canol, ond chwilio am drysorau dan y ddaear gyda'i synhwyrydd metel ('metal detector'). Mae wedi cael cryn lwyddiant dros y blynyddoedd yn darganfod darnau o arian hynafol a thrysorau bach eraill o'r Oesoedd Canol ymlaen.

Bellach mae Peter wedi taro'r jacpot wrth chwilota ar dir yng Nghwm Slaid ger adfail tyddyn Pen-y-banc. Wedi'u gwasgaru tuag wyth modfedd o dan y pridd yno, darganfu 47 darn arian o gyfnod y Rhufeiniaid, dwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae'r trysor yn cynnwys 29 darn arian o'r enw 'denarius' ynghyd â 18 darn copr o'r enw 'as'. Mae arbenigwyr wedi'u cyffroi gan y darganfyddiad – y mwyaf o'i fath yn yr ardal hon. Gan fod ffynnon gerllaw, mae'n bosibl bod y darnau wedi'u taflu fel offrwm i'r duwiau gan lwythau Celtaidd neu gan y Rhufeiniaid a oedd wedi codi gwersyll milwrol mewn cae cyfagos (gyferbyn â lleoliad ffermdy Erglodd erbyn hyn) ac a fu'n mwyngloddio yn yr ardal. Mae'r casgliad nawr yn cael ei ystyried yn drysor dargynfaddedig ('treasure trove').

Dechreuodd Peter chwilota gyda'i synhwyrydd metel tua chwe mlynedd yn ôl. Roedd wedi dioddef anafiadau difrifol wedi damwain gan arwain at lawdriniaethau mawr iddo. Roedd hefyd, o ganlyniad i'r ddamwain, yn dioddef o bwysau seicolegol ond cafodd ymgeledd drwy ei hobi newydd gan dderbyn cymorth parod tirfeddianwyr lleol a roddodd ganiatâd iddo chwilota ar eu caeau.

Bu chwilota dyfal Peter o ddefnydd i un wraig leol a oedd wedi colli ei modrwy briodas. Llwyddodd Peter i ddarganfod y fodrwy ar y llwybr i Allt-y-Crib a'i dychwelyd i'w pherchennog diolchgar.

Mae hefyd wedi darganfod arian o'r 1640au a fathwyd yn y Bathdy Brenhinol yng nghastell Aberystwyth a sawl ceiniog o gyfnod y brenin William III - prawf bod prysurdeb yn y diwydiant mwyngloddio yn y cyfnod hwnnw.

Er ei lwyddiant diweddar, bydd Peter yn dyfalbarhau gyda'i chwilota ond go brin y caiff ddarganfyddiad mor gyffrous na'r un ger Pen-y-banc.



pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 2

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG


am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

## Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Mair a Betsan, gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Non a Gerwyn fydd yn golygu rhifyn Mawrth (nonjones100@gmail.com).

Y dyddiad cau yw 1 Mawrth a bydd y papur ar werth ar 8 Mawrth.




"70! Dim ond megis dechrau..."

**Adweitheg**
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
**07375 422 608**



*Salon Leri*
*Pob agwedd o drin gwallt gan Richard*
*10am-7pm*
*Llun-Gwener*
*(01970) 832 674*

Neuadd Goffa Tal-y-bont


**HWYL DDEWI 2024**

Nos Sadwrn 2 Mawrth
Cawl a Chân yng nghwmni
**MERCHED SOAR**
Gweinir Cawl am 6.30
Adloniant 7.30
Tocynnau: £8 i oedolion
£2 i blant

**Cyfarfod Blynyddol**

Pwyllgor Rheoli
**Neuadd Goffa Tal-y-bont**

Nos Fercher 14 Chwefror
8.00 yr hwyr
Croeso i bawb




**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**CHWEFROR**

11 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, David Jones
**Rehoboth** 2 Judith Morris
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

13 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Cerddi'r gyfrol *DNA*' (Gwenallt Llwyd Ifan)

14 **Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli** 8 Neuadd Goffa Tal-y-bont

16 **'An evening of Mediumship'** 7 Llanfach (Karen Wilson)
**AberOpera yn y Pictiwrs** 7 Neuadd Goffa Tal-y-bont (Adloniant, cwis a lluniaeth ysgafn)
**Cwis** 8 Wildfowler

18 **Bethel** 10 Uno â Seion, Wyn Morris
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

19 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**

22 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol
**Bingo** 7.30 Wildfowler

23 **Sesiwn Nos Wener** 8 Llew Gwyn (Delwyn Siôn)

25 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

27 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 7.30 Llanfach (Michael Freeman)

**MAWRTH**

1 **'Dydd Gweddi y Byd'** 2 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach, gyda the Cymreig i ddilyn
**Cwis** 8 Wildfowler

2 **Hwyl Ddewi gyda Merched Soar** 6.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont

3 **Bethel** 10 Uno â Seion, Prysor Davies
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

4 **Cymdeithas Sioe Talybont** Cyfarfod Blynyddol 8 Gwaelod y Neuadd Goffa

7 **Bingo** 7.30 Wildfowler

10 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, Falyri Jenkins
**Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**BOB WYTHNOS**

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

# Pobl a Phethe

## Hip hip hwrê!



*(o'r chwith): Alan Wilson, Dôl Pistyll; Phil Davies, Gwynionydd; Fredrick Davies, Maesyderi; Aeron Williams, Maesmeillion*

Bu tipyn o ddathlu yn y Cwtsh Cynnes yn ddiweddar- 4 yn dathlu penblwyddi arbennig o 70 i 89 oed. Diolch yn fawr i Mair Rowlands, Erglodd am wneud y gacen. Cofiwch bod y Cwtsh Cynnes yn cwrdd yng ngwaelod y Neuadd Goffa bob bore Mawrth rhwng 10 a 12.



Nia Richards, Rhiwlan a Janet Jones, Llwynglas yn cyflwyno, ar ran aelodau Nasareth, y darllenydd o'r sêt fawr, i swyddogion Bethel.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r canlynol: Claire Jones, Bron y Gân, Tal-y-bont sydd wedi colli ei llysdad ym Mhenrhyn-coch.

Peter Nicholas, Tŷ Canol, Tal-y-bont sydd wedi colli ei famgu yn Bow Street.

Rachel Mills, Green Cottage, Tal-y-bont a'r teulu, Green Cottage sydd wedi colli ei thad.

Eluned Williams, Cynnull Mawr sydd wedi colli ei brawd yn Bow Street.

Rydym yn meddwl amdanoch ac yn anfon ein cofion atoch.

**Pen-blwydd**

Pen-blwydd hapus iawn i Dei, Tanllan oedd yn dathlu ei ben blwydd yn 70 yn mis Ionawr. Cafwyd parti i ddathlu yn Y Wildfowler.

**Ysbyty**

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Carol Jones, Taliesin, sydd wedi cael triniaeth yn yr Ysbyty.

Rydym yn falch i glywed fod Mrs Barbara Jenkins, Hafod Ifan adref gyda'i merch Jayne yn Pantlleinau ar ôl treulio cyfnod yn yr Ysbyty.

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau calonnog i Gerwyn Jones, Tŷ Ni, Dôl Pistyll ar ei swydd newydd gyda Chyngor Gwynedd.

**Panto**

Braf oedd gweld Ariana Lloyd Williams, Moelgolomen a Miriam Davies, cyn ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont yn cymryd rhan yn y Panto Cinderella.



## Tarian Defaid Mynydd

Yng nghinio blynyddol y Defaid Mynydd Cymreig a gynhaliwyd yng Nghlwb Golff y Bala, cyflwynwyd tarian i Deulu Tyngraig gan y Cadeirydd, Mr B Owen, Tai Pella am y cyfartaledd uchaf yn arwerthiannau'r hydref sef £5,526.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Arthur Dafis, Mur-Mawr, Tal-y-bont sydd wedi colli modryb.

Yn yr un modd rydym yn cofio at Mrs Betty Jenkins, Pengwern ac Aled, sydd wedi colli chwaer yng nghyfraith yng Nghiliau Aeron.

Pob cydymdeimlad gyda Wendy Watkins a'r teulu, Heulfor, Staylittle sydd wedi colli ei mam, Mrs Mair Evans, Pantydwn.

Cydymdeimlwn â Julie Swanson, Dôl-Pistyll yn dilyn marwolaeth ei mam o Gwmllinau. Cofion at Julie, Craig a Billy yn eu hiraeth.

Pob cydymdeimlad â theulu Megan Brickley, Tal-y-bryn, Taliesin sydd wedi marw yn ddiweddar.

Cymdeithas Sioe Tal-y-Bont

**CYFARFOD BLYNYDDOL**

Nos Lun 4 Mawrth 2024
8yh
Gwaelod y Neuadd Goffa

Croeso cynnes i bawb!

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Keira a Tecwyn, Hillside ar enedigaeth merch fach ar ddiwrnod Nadolig o'r enw Lola Marian Williams. Llongyfarchiadau i Margaret Geddes ar ddod yn famgu a Delyth a David Geddes ar ddod yn hen famgu a hen dadcu.

NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com



*Ysgol Iach – Gala Nofio*



*Ysgol Greadigol – Côr Cymru*




*Staffio – Diolch o galon Miss Linsey*



*Gwersyll yr Urdd, Llangrannog*




*Ymweliad i Barc y Scarlets*



*Gwersi Offerynnol*

pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 5

# Ysgol Tal-y-bont



*Iâr Fach Goch*

## Ysgol y Gymuned
## Ymwelwyr anghyffredin



Rydym yn ymhyfrydu ein bod yn ysgol mewn ardal wledig amaethyddol. Mae gallu cyflwyno byd y ffermwyr lleol yn bwysig iawn i ni yma yn Ysgol Tal-y-bont. I helpu gyda'n gwaith thema yn Nosbarth Mynydd Gorddu, daeth yr Iâr Fach Goch a'i ffrindiau i weld y plant. Roedd pawb wedi gwirioni wrth weld y stori enwog yn dod yn fyw o flaen eu llygaid! Diolch yn fawr i rieni'r dosbarth am fod mor barod i helpu – dyma beth oedd digwyddiad diddorol a chyffrous.

## Y Cae Bach a'r Neuadd Goffa

Rydym mor ffodus i gael defnyddio adnoddau'r pentref i gyfoethogi'r profiadau i'r plant yn yr ysgol. Dyma ni'n mwynhau yn y Cae Bach hyfryd ac yn cynnal sesiynau cylchedau corfforol yn y Neuadd Goffa.

## Ysgol Iach – Gala Nofio

Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio i ysgolion Cylch Aberystwyth. Aeth tîm o 19 o'r ysgol i gystadlu unwaith eto eleni, y mwyaf ers nifer o flynyddoedd, ac fe gafwyd sawl perfformiad arbennig o dda, gyda rhai yn ennill eu rasys. Da iawn chi gyd am gystadlu mor frwd yn erbyn ysgolion eraill yr ardal a llongyfarchiadau mawr i Daniel a Mostyn am gyrraedd y brig.

## Siarter Iaith
## Gwersyll yr Urdd, Llangrannog

Mae'r ysgol yn credu'n gryf bod mynd i aros dros nos yn un o wersylloedd yr Urdd yn brofiad hollbwysig yn ein darpariaeth. Ers rhai blynyddoedd bellach rydym wedi trefnu gwibdaith i Wersyll yr Urdd Llangrannog yn ystod mis Ionawr ac eleni, tro Dosbarth Allt y Grib oedd hi i fynd. Roedd pawb yn gyffrous iawn cyn dechrau ac fe barhaodd y cyffro dros yr holl amser yno. Diolch yn fawr i staff y Gwersyll am ofalu amdanom a diolch o galon i Mrs Jones am bob cymorth ar y daith. Dyma atgofion rhai o'r plant o'r ymweliad –

Roeddwn i wedi hoffi'r gwibgartio achos roeddwn i'n hoffi cwmpo yn y glaw – Elsi
Roeddwn i wedi hoffi'r gwibgartio achos roeddwn i'n hoffi troelli rownd a rownd – Elis J
Roeddwn i wedi hoffi'r gwibgartio achos roeddwn i'n hoffi mynd lawr y llethr yn gyflym – Mattias
Fe wnes i fwynhau achos bod pawb wedi cael hwyl – Elis W
Fy hoff weithgaredd oedd y rhaffau uchel gan fy mod yn mwynhau dringo – Ieuan
Roeddwn i wedi mwynhau mynd i'r pwll nofio achos bod e'n neis a bod ni wedi cael hwyl gyda ffrindiau – Bes
Mynd ar y ceffylau nes i hoffi achos bod fi wedi cael cyfle i arwain a mynd ar gefn un.

Roedd hi'n hyfryd i gael cwrdd gyda disgyblion o ysgolion eraill yng Ngheredigion a gwneud ffrindiau gyda phlant Ysgol Craig yr Wylfa fel rhan o'n cynllun Pont yr Wylfa.

## Dydd Santes Dwynwen

Cafwyd ddigon o hwyl wrth ddathlu Dydd Santes Dwynwen yn yr ysgol ar ddiwedd mis Ionawr. Aeth pob dosbarth ati'n brysur i gwblhau gweithgareddau diddorol ac roedd hi'n braf i weld yr holl fedrau creadigol ar waith.

## Ysgol Greadigol – Côr Cymru

Hefyd yn ystod Diwrnod Santes Dwynwen, cafodd Dosbarth Braich Garw gyfle unigryw i ymuno gyda channoedd o blant o ysgolion ar draws Ceredigion yn y Neuadd Fawr i fod yn rhan o gôr plant Cymru. Bwriad y côr yw rhyddhau sengl newydd i fynd allan ar Fawrth y 1af. Mae holl Siroedd Cymru yn cael y cyfle i gyd-ganu a gobeithio creu record byd am y nifer mwyaf mewn côr erioed! Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at glywed y gan gyfan cyn bo hir. 'Pawb i Ganu'n Un' dan arweiniad y cwmni ABC of Opera

## Gwersi Offerynnol

I barhau gyda'r thema cerddorol rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael Miss Helen yn dod i'r ysgol i gyflwyno gwersi offerynnol i Ddosbarth Allt y Grib. Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau'n cadw rhythmau gwahanol a chwythu'r offeryn pBuzz i ganeuon adnabyddus.

## Ymweliad i Barc y Scarlets

Mae ein cysylltiad gyda Chlwb Rygbi'r Scarlets wedi parhau yn ystod mis Ionawr. Er gwaethaf y canlyniad siomedig, dyma lun hyfryd o rywun yn cwrdd ag arwr y Rhanbarth!

## Staffio – Diolch o galon Miss Linsey

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i longyfarch Miss Linsey ar gael ei phenodi i swydd newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Diolch yn fawr i chi Miss Linsey am eich holl waith yma yn Ysgol Tal-y-bont dros y blynyddoedd diwethaf yn y dosbarth, yn y Clwb Brecwast, yn y Clwb ar ôl Ysgol ac ar y llywodraethwyr. Dymuniadau gorau i chi Miss Linsey a phob hwyl i chi yn y dyfodol. Cofiwch alw 'nôl i'n gweld yn fuan.




*Rhai o siaradwyr Cymraeg y mis*

pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 6

# Cronfa Eleri 2023

Rhwng 1998 a 2023 derbyniodd y gronfa geisiadau am gymorth o dros £735,000 gan 355 o ymgeiswyr. Rhoddwyd cymorth i dros 200 ohonynt, gan roi cyfanswm o dros £398,000 (cyfartaledd o dros £1,000 y cais). Y cais unigol mwyaf a dderbyniwyd mewn un flwyddyn oedd am £15,000 a'r cymorth unigol uchaf a ddyfarnwyd mewn un blwyddyn oedd £7,500.

Mae natur y cynlluniau a gefnogwyd wedi bod yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at adnewyddu adeiladau; prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer uchelseinydd; offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau; adeiladu meysydd chwarae i blant; prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion; datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro; a myrdd o gynlluniau eraill. Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau - dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Cyfanswm y ceisiadau ar gyfer 2023 oedd £25,546. Cyfanswm y grantiau a roddwyd gan gronfa ar gyfer 2023 oedd £25,546. Diolch i Bwyllgor Cronfa Eleri am eu gwaith caled wrth benderfynu ar sut y dylai'r arian oedd ar gael (£25,642.96) gael ei ddosrannu yn unol ag amcan y gronfa o "Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu". Gweithgareddau y llwyddwyd eu cefnogi eleni oedd: Sioe Rhydypennau; Ysgol Tal-y-bont; Neuadd Tal-y-bont; Ysgol Rhydypennau; Cae Chwarae Tal-y-bont; Clwb Ieuenctid Tal-y-bont; Henoed Llandre a Bow Street; Neuadd Penrhyncoch; Cyngor Genau'r Glyn a Meysydd Chwarae Rhydypennau.

Bydd y gronfa ar agor i geisiadau ar gyfer y flwyddyn 2024 ddiwedd Mis Tachwedd 2024. Manylion pellach ar gael ar wefan Cronfa Eleri (cronfaeleri.cymru).

## Llythyr

# Uno cymunedau mewn cân

Mae Côr Gobaith – côr stryd sy'n canu dros heddwch, cyfiawnder cymdeithasol a'r amgylchedd – wedi bod wrthi'n brysur dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi diwrnod o weithgarwch i uno cymunedau mewn cân. Y bwriad yw cynnal digwyddiad sy'n rhoi cyfle i ddysgu mwy am ddiwylliant y gymuned ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac i wneud hynny trwy gân gyda'r nod o ddatblygu cyd-ddealltwriaeth rhwng y grwpiau hyn a'r gymuned leol.

Prosiect cydweithredol gyda Chôr Un Byd Oasis – côr ffoaduriaid o Gaerdydd – yw'r digwyddiad.

Ar brynhawn Sadwrn, 24 Chwefror (1.30, Canolfan St Paul's), bydd arweinwyr y ddau gôr yn cynnal gweithdy canu ac yn y nos wedyn (7.00,Amgueddfa Ceredigion), cynhelir cyngerdd er budd AberAid a Chanolfan Oasis yn Amgueddfa Ceredigion.

Rydym yn fawr obeithio y bydd pobl yr ardal yn cefnogi'r digwyddiad, ac am unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso i chi esbotio corgobaith@gmail.com

Diolch, Côr Gobaith




# Mae deisebau yn gallu gweithio!

Yn dilyn deiseb y Cynghorydd Cymuned Ruth Stevenson o Eglwys Fach yn galw ar y Senedd i leihau'r terfyn cyflymder o 40mya i 30mya drwy bentrefi Ffwrnais, Eglwys Fach a Glandyfi cafwyd ymateb da iawn. Digon o ymateb i sicrhau bod y ddeiseb yn cael ei thrafod gan Bwyllgor Deisebau'r Senedd ym mis Ionawr!

Roedd y drafodaeth yn y Pwyllgor yn fuddiol a mae'r canlyniad yn newyddion da i drigolion yr ardal. Penderfynodd y Pwyllgor bod nhw'n cytuno bod y sefyllfa bresennol yn mynd yn erbyn polisi cyfredol y Llywodraeth ar gyflymder ffyrdd a bod yn rhaid i'r Dirprwy Weinidog Lee Waters ystyried y cais lleol i ostwng y terfyn cyflymder ar fyrder. Gofynwyd hefyd i Lee Waters roi amserlen i drigolion lleol ar gyfer trafod a phenderfynnu ar derfyn cyflymder yn y pentrefi.

Cam positif ymlaen i sicrhau gwell diogelwch i gerddwyr a seiclwyr Papur Pawb.

A cham nesaf y grŵp sy'n ymgyrchu? Cadw i bwyso ar Lee Waters am y terfyn cyflymder ond hefyd galw am lwybr troed. Mae'n wallgo bod dim llwybr troed wrth un o brif ganolfannau'r ardal sef yr Ystafell Haearn.

*CMSD*

# Dewrder Matt



Ar 8 Ionawr am 7:00yh darlledwyd y cyntaf mewn cyfres newydd ar BBC Cymru yn dwyn y teitl SOS – *Extreme Rescues*. Mae cyfanswm o 12 pennod i'r gyfres sy'n olrhain gweithgarwch timau achub mynydd ac asiantaethau eraill yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae un o drigolion Bont-goch, fy nghymydog Matt Young, yn rhan o dîm achub Aberdyfi a De Eryri, ac mae pennod 6, a ddarlledir ar 12 Chwefror, yn cynnwys ei hanes dirdynnol yn achub dringwr arall a aeth i drafferthion ar Gader Idris. Roedd y gŵr o Crewe yn arbennig o ffodus fod Matt wedi dod ar ei draws yn gwbl ddamweiniol wrth iddo yntau fentro i ben y mynydd ar ben ei hun wrth ymarfer, a hynny mewn tywydd gwael. Erbyn hyn mae Matt wedi dringo Cader Idris dros 200 o weithiau, ac yn adnabod y mynydd fel cefn ei law. Roedd ei brofiad y diwrnod hwnnw, er iddo roi ei fywyd ei hun mewn perygl gwirioneddol, wedi arwain at ddiweddglo hapus i'r digwyddiad. Cofiwch wylio'r rhaglen ar 12 Chwefror – mae'n gwbl ddirdynnol, ac ni allwn ond rhyfeddu ar ddewrder Matt, a diolch iddo ef a'i gyd-wirfoddolwyr am y gwaith anhygoel y maent yn eu cyflawni. Mae modd gwylio'r rhaglen ar BBC iPlayer hefyd.

*REH*


Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 7

# Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch yn dathlu!



*Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch 1954/5*

*Rhes ôl (o'r chwith): Hywel Williams, Danny Thomas, John Thomas, Ieuan Evans, Hywel James, Vernon Davies, Vernon Jones, Ken Evans, Dafydd Davies, Trefor Jones, William Jenkins, Gwyn Jones, Geraint Jones, Bob Williams.*

*Rhes ganol: John James, Wyn Davies, Gwynne Royle, David Jones, Harry Jones, Johnny Owen, D. J. Thomas, Johnnie Jones, Humphrey Roberts, Handel Morgan, Tom Davies, Wyn Thomas, Henry Davies, Fredrick Davies.*

*Rhes flaen: David Wyn Edwards, Ieuan Evans, Gwilym Jenkins, Marian Hughes, Margaret Jenkins, Elizabeth Royle, John Rees, Gwyneth Owen, Rosalind Edwards, Mair Jones, Judith Williams, Ieuan Evans (Ruel), David James.*

Mae 2023/4 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch wrth i ni ddathlu saith deg mlynedd er ei ffurfio. Fe'i sefydlwyd mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar nos Fercher, 14 Hydref 1953, gyda bron i hanner cant o bobl ifanc yr ardal yn bresennol. Fel pob clwb ry'n ni wedi profi sawl llanw a thrai dros y blynyddoedd, ond mae'n destun balchder ein bod ni'n dal i gwrdd yn wythnosol yn Nhal-y-bont saith degawd yn ddiweddarach, a bod y mudiad yn parhau i gynnig profiadau gwerthfawr i ieuenctid gogledd y sir.

Ar hyn o bryd, mae 'na brysurdeb mawr ymhlith yr aelodau a'r arweinyddion a ninnau'n paratoi'n ddiwyd at ein cinio dathlu mawreddog sydd i'w gynnal ar nos Sadwrn, 24 Chwefror, am 7.30yh, yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Bydd yr achlysur hwnnw'n gyfle i ni edrych nôl ar weithgarwch a llwyddiannau'r clwb dros y degawdau ac i hel atgofion yng nghwmni Elen Pen-cwm a chyfeillion eraill. Os am ymuno â ni i ddathlu, gellir archebu tocynnau (£27.50 y pen am bryd tri chwrs) drwy yrru neges destun i 07954 127251 cyn y dyddiad cau ar 19 Chwefror.



*Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch yn paratoi at y 'Gystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant' yn 2023.*

Ond peidiwch â phoeni os na fedrwch ddod! Bydd modd i chi ddilyn yr hanes ar ein tudalen facebook 'C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch: Dathliad 70' lle byddwn yn rhannu hen luniau a lle bydd cyfle i chithau gyfrannu'ch atgofion personol.



pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 8

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Nos Lun 29 Ionawr, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Cygnor llawn oddi ar ddiwedd mis Tachwedd. Ymhlith yr eitemau a drafodwyd yr oedd bod BT yn bwriadu gwaredu'r ffon o giosg Cwm Eleri am fod y signal ar gyfer ffonau symudol yn ddigonol yn yr ardal erbyn hyn. Cynigiwyd y posibilrwydd o brynu'r ciosg oddi wrth BT a symud un o'r tri diffibriliwr sydd yn Nhal-y-bont yno. Cynigiwyd hefyd y gellid cynnal cwrs lleol ar ddefnyddio deffibrilwyr – cadwch olwg am ragor o wybodaeth maes o law.

Roedd hefyd yn amser dyrannu grantiau 2023-24, a phenderfynwyd ar y canlynol:

| | |
|---|---|
| Mudiadau lleol: | |
| Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont | £200.00 |
| Clwb Ieuenctid Tal-y-bont | £200.00 |
| Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont | £500.00 |
| Clwb Pêl-droed Tal-y-bont | £500.00 |
| Cylch Meithrin Tal-y-bont | £1,000.00 |
| Cymdeithas Papur Pawb | £400.00 |
| Cartref Tregerddan | £300.00 |
| Pwyllgor Clwb ar ôl Ysgol Tal-y-bont | £200.00 |
| Clwb Brecwast Ysgol Tal-y-bont | £200.00 |
| Grwp Llifogydd Tal-y-bont | £200.00 |
| Neuadd Goffa Tal-y-bont | £1,000.00 |
| Cymdeithas Amaethyddol Tal-y-bont | £400.00 |
| | |
| Mudiadau sirol a chenedlaethol: | |
| Blood Bikes Wales, Aberystwyth | £100.00 |
| Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd | £100.00 |
| Kids Cancer Charity | £100.00 |
| **Cyfanswm** | £5,400 |

Os hoffech gael cymorth ariannol gan y Cyngor Cymuned ar gyfer 2024-25, cofiwch anfon eich cais at y Clerc ym mis Rhagfyr neu ddechrau mis Ionawr.

Ac yn olaf, peidiwch ag anghofio'r noson yng nghwmni AberOpera a gynhelir yn y Neuadd Goffa am 7 o'r gloch ar nos Wener 16 Chwefror – digon o adloniant, cwis hwyliog, a lluniaeth. Bydd yr elw i gyd yn mynd i Gronfa Cae Bach, felly dewch yn llu i gefnogi.

# System Gyfrifiadurol Neuadd Goffa Tal-y-bont

Fel y gwyddoch efallai, gosodwyd system gyfrifiadurol a gwasanaeth di-wifr yn Neuadd Goffa Tal-y-bont y llynedd gyda chymorth ariannol Cynnal y Cardi Cyngor Ceredigion. Mae Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn talu am y cysylltiad â'r we ac mae nhw, a nifer o gyrff eraill eisoes yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth.

Mae'r system yn cynnwys sgrin fawr yn y Neuadd Waelod y mae modd i fudiadau a chymdeithasau lleol ei ddefnyddio pan yn cynnal cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd hybrid lle mae rhai mynychwyr yn ymuno o bell.

Mae sesiwn wedi cael ei drefnu er mwyn dangos i chi sut i wneud y defnydd gorau o'r offer ar Nos Lun 12 Chwefror am 6.00yh yn y Neuadd Waelod.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd ar nos Lun, Ionawr 15fed yn y Neuadd Goffa pan ddaeth nifer dda o aelodau ynghyd i groesawu ein gwraig wadd am y noson sef Meleri Wyn James, yr awdur o Aberystwyth. Nid oedd angen cyflwyno Meleri i'r aelodau gan ei bod yn olygydd i Wasg Y Lolfa yma yn Nhal-y-bont. Er iddi gael ei geni yn Llandeilo, symudodd y teulu i dde Ceredigion i ardal Aberporth a Beulah ac yn yr ardal honno cafodd ei haddysg gynnar. Wedi gadael Ysgol Uwchradd Aberteifi aeth i Brifysgol Aberystwyth lle derbyniodd radd B.A. ac yna i'r Drindod yng Nghaerfyrddin gan dderbyn ei M.A.

Erbyn hyn mae'n byw yn Aberystwyth gyda'i gŵr Sion Ilar a'i dwy ferch, Mia Seren ac Esther Alys. Soniodd am ei diddordebau sef rhedeg a marchogaeth. Mae'n aelod o Glwb Athleteg Aberystwyth ac mae eisoes wedi cwblhau sawl hanner marathon.

Soniodd yn ei sgwrs bod ganddi'r ysfa i ysgrifennu ers yn blentyn ifanc a gŵyr pawb erbyn hyn am ei chyfraniad i lenyddiaeth Cymru gan ei bod yn ysgrifennu llyfrau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r gyfres 'Na Nel' o'i heiddo yn hynod o boblogaidd a chofir am y cyflwyniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron yn 2022.

Soniodd hefyd am y profiad o orfod cadw'r gyfrinach mai hi oedd enillydd y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan y llynedd ac am yr emosiwn a'r wefr o'r seremoni ei hun. Cyfaddefodd iddi rannu'r gyfrinach gydag ambell aelod o'r teulu - hwyrach bod rhannu'r gyfrinach yn lleihau'r tensiwn.

Roedd yn amlwg bod ysgrifennu yn bwysig iddi fel awdur a golygydd a mawr oedd ei diolch i'w theulu a'i chydweithwyr am eu cefnogaeth amrhisiadwy. Ar ran yr aelodau diolchwyd i Meleri am noson arbennig gan Megan Mai a chafwyd orig o sgwrsio difyr dros baned cyn troi am adre.

*E.E.*

# Clwb Gwawr y Pennau



Ar noson wlyb a gwyntog aeth criw Clwb Gwawr y Pennau i Libanus 1877 i ddathlu'r Nadolig – fis yn hwyr!! Cawsom noson hwyliog a bwyd bendigedig. Braf oedd cael ein gweini gan ddwy o ferched Tal-y-bont, sef Elinor Gwynfryn a Therese Maesyllan. Ar ôl gwledda roedd hi'n braf cael eistedd o amgylch y tân yn sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le. Croeso cynnes i aelodadu hen a newydd ymuno â ni – cadwch olwg ar Papur Pawb i gael manylion a dyddiadau ein gweithgareddau misol.

pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 9

# Clwb Hen Beiriannau




*Peter yn cyflwyno'r siec i Dr Ian Hosker*

Ar nos Fercher 10 Ionawr cawsom gwmni Erwyd Howells am yr ail waith mewn llai na blwyddyn. Tro yma cawsom rhai o'i atgofion tra'n gweithio fel bugail defaid yn ardal Pumlumon.

Mae Erwyd wedi treulio'i oes yn bugeilio mewn ardal eang; ffermydd llawr gwlad yn ogystal â ffermydd mynydd. Ond mae rhywun yn cael yr argraff mai'r ucheldir sydd nesaf at ei galon. Dim syndod efallai ac yntau wedi'i fagu ym Mhonterwyd.

Clywsom llawer o'i atgofion personol yn ogystal â golwg cyffredinol ar fywyd y bugeiliaid mynydd. Yn gynnar yn ei fywyd gwaith bu Erwyd yn gweithio ac yn 'byw mewn' ar fferm Cwm-cemrhiw sydd ym mhen uchaf Cwm Llyfnant heb fod ymhell o Gwm Rhaeadr. Dyma'r tro olaf iddo gysgu mewn gwely plu – profiad braf iawn gallwn gredu.

Charles Evans oedd yn ffermio Cwm-cemrhiw ar y pryd. Roedd ganddo wybodaeth chwedlonol am farciau clustiau defaid. Gwyddai farciau pob fferm o Ddylife hyd at Dal-y-bont ac ymhellach fwy na thebyg gyda'r cyfan ar ei gof.

Bydd llawer o ddarllenwyr Papur Pawb yn gyfarwydd â llyfr gwych Erwyd 'Good Men and True'. Os nad ydych wedi dod ar ei draws mae'n werth cael gafael arno.

Diolch eto, Erwyd. Edrychwn ymlaen am y trydydd tro. Tybed be gawn ni?

Yn ystod y noswaith trosglwyddodd ein cadeirydd Peter Watkin siec am £500 tuag at adran Cemotherapi Ysbyty Bronglais. Diolch i Doctor Ian Hosker am drefnu trosglwyddo'r arian i Bronglais ar ran y clwb. Codwyd yr arian yn ystod taith dractorau gynhaliwyd nôl ym Mis Medi.

*John Evans*




# Colofn Ben Lake AS



Ar ddechrau'r flwyddyn, rydyn ni gyd yn gosod targedau newydd i'n hunain; gwneud mwy o ymarfer corff, darllen un llyfr y mis, prynu llai o ddillad. Rydyn ni'n rhoi pwysau ar ein hunain i wella'n bywydau personol, ond pwy sy'n edrych ar yr hyn sydd yn digwydd o'n cwmpas er mwyn sicrhau bod y gymdeithas rydyn ni'n byw ynddi yn ffynnu yn ystod 2024 a thu hwnt?

Yn ôl yn yr Hydref, cadarnhaodd data bod yr Afon Teifi wedi dioddef lefel uwch o lygredd nag unrhyw afon arall yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Gollyngwyd carthion i mewn i'r Afon Teifi am gyfanswm o 1,146 o ddiwrnodau rhwng 2018 a 2023 o ganlyniad i waith trin dŵr gwastraff annigonol yn Aberteifi. Mae systemau carthffosiaeth yn aml yn gorlifo yn ystod cyfnodau o law trwm a stormydd mawr. Caniateir i gwmnïau ollwng carthffosiaeth pan fydd gwastraff yn cyrraedd lefel benodol yn ystod y cyfnodau hyn, i atal y gwastraff rhag dychwelyd i gartrefi. Er hyn, gollyngwyd carthffosiaeth yn yr Afon Teifi cyn bod y lefel hon yn cael ei chyrraedd, gan wneud y weithred yn anghyfreithlon. Wrth i'r hinsawdd newid, rydyn ni'n gweld cynnydd mewn tywydd eithafol, sydd, heb os, yn mynd i effeithio ar ansawdd ein hafonydd wrth gynyddu llygredd iddynt o orlifoedd storm gan beryglu byd natur, bioamrywiaeth ac iechyd pobl.

Mae hyn yn bryder mawr i mi ac i nifer o bobl eraill. Y tristwch a'r siom yn hyn i gyd yw bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r problemau yn Aberteifi ers 2015. Er i nifer o hysbysiadau gorfodi gael eu cyflwyno ar y safle, ni chyflwynwyd unrhyw ddirwyon. Codais y mater yn ystod sesiwn y Pwyllgor Materion Cymreig yn hwyr yn 2023 i fynegi fy anniddigrwydd a chwestiynu'r Prif Weithredwr am gyfiawnder a sicrwydd ar gyfer y dyfodol. Mae Dŵr Cymru bellach wedi cyhoeddi eu bod am fuddsoddi £20 miliwn i adnewyddu gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn Aberteifi ac i uwchraddio'r seilwaith sydd yn ei lle yn barod.

Yma yng Ngheredigion, rydyn ni'n ffodus o gael arfordir trawiadol dafliad carreg i ffwrdd; arfordir sy'n rhyfeddol i ni sy'n byw yma ac i'r rhai sy'n dod yma ar eu gwyliau. Y gwir amdani yw bod diofalwch cwmnïau a chyrff llywodraethol wedi cael effaith niweidiol ar ein harfordiroedd, afonydd a chymdeithas. Mae'n bryd iddynt ddechrau cymryd cyfrifoldeb a gofalu amdanynt o ddifri er mwyn sicrhau dyfodol diogel a llewyrchus i fyd natur Ceredigion.

Neges gan y golygyddion – Llongyfarchiadau i Ben ac Elin ar eu priodas ar 9 Rhagfyr, pob dymuniad da i chi'ch dau.



pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 10

# Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Estynnwyd croeso i Jane Aaron, Aberystwyth, i'r cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 9 Ionawr, yn festri capel Rehoboth, a chafwyd ganddi hanes diddorol Sarah Jane Rees. Roedd Sarah Jane Rees a anwyd yn Llangrannog yn 1839 yn fwy adnabyddus yn ôl ei henw barddol, Cranogwen, ac roedd yn arloeswr mewn nifer o feysydd. Roedd yn athrawes Gymraeg, yn fardd, yn olygydd, yn brif forwr ac yn ymgyrchydd dirwest. Derbyniodd ei haddysg gynnar yn ysgol y pentref gan hen ysgolfeistr o'r enw Hugh Davies, a ddysgodd Ladin a seryddiaeth iddi. Mynychodd ysgol yn Aberteifi a Chei Newydd yn ddiweddarach, ac astudiodd am gyfnod mewn ysgol fordwyo yn Llundain lle'r enillodd ei thystysgrif prif forwraig, cymhwyster a oedd yn caniatáu iddi reoli llong yn unrhyw ran o'r byd. Am ddwy flynedd bu'n gweithio fel morwraig ar longau cargo rhwng Cymru a Ffrainc cyn dychwelyd i Lundain a Lerpwl i gynyddu ei haddysg forwrol. Yn ôl yng ngorllewin Cymru daeth yn brifathrawes pan oedd yn 21 oed, ac yn 1859 sefydlodd ei hysgol fordwyo ei hun yn Llangrannog lle'r addysgodd forwriaeth a chrefft môr i ddynion ifanc lleol. Yn 1865, daeth yn enwog drwy Gymru gan mai hi oedd y wraig gyntaf i ennill gwobr farddonol yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Aberystwyth y flwyddyn honno, gan ysgrifennu dan yr enw Cranogwen. Yn dilyn ei llwyddiant cynyddodd ei phoblogrwydd, a byddai'n teithio ledled y wlad yn darlithio ar ran y Methodistiaid Calfinaidd. Bu hefyd ar deithiau o amgylch Unol Daleithiau America, gan annerch cymunedau o ymfudwyr Cymreig yn bennaf. Yn 1879 hi oedd y fenyw gyntaf i olygu cylchgrawn Cymraeg i fenywod, *Y Frythones*. Bu farw Sarah Jane yn 1916 yng Nghilfynydd, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Sant Crannog, Llangrannog. Yn 2021 comisiynwyd Sebastien Boyesen i greu cerflun ffigurol o Cranogwen, a chafodd y cerflun ei ddadorchuddio mewn seremoni i goffáu ei bywyd yn Llangrannog ym Mehefin 2023.

Diolchwyd yn gynnes i Jane am hanes diddorol Cranogwen, ac am ddatgelu'r ffaith iddi fod yn darlithio fwy nag unwaith yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, yn ystod yr 1860au, ffaith nad oeddem yn ymwybodol ohoni. Cafwyd paned ar y diwedd wedi ei baratoi gan Carys Briddon.

# Treftadaeth Llangynfelyn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn ers cyn cof(id) nos Fawrth 30ain Ionawr yn Llanfach. Ein siaradwr gwadd oedd Helen Palmer, Archifydd y Sir, a oedd yn siarad am "Hen Aberystwyth yn yr Archifdy" yn ei steil ddifyr arferol. Braf gweld 15 o bobl yno.

Y cyfarfod nesaf fydd nos Fawrth 27ain o Chwefror, am 7.30 yn Llanfach, pan fydd Michael Freeman yn siarad am ei waith ymchwil ar ddyddiaduron dwy ffermwraig o Geredigion ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Dewch yn llu.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# CFfI Tal-y-bont



Ar 16 Ionawr aeth criw da ohonom ar ymweliad â Milfeddygfa Ystwyth. Buodd Kate yn dangos y theatr llawdriniaethau tra cawsom weld o amgylch y filfeddygfa gyda Phil. Diolch i'r ddau am noson diddorol iawn.



Ar 23 Ionawr daeth Anwen Tyngraig neu Ani-bendod atom i gynnal sesiwn greadigol i greu crys rygbi i ddathlu pen-blwydd y clwb a fydd ar werth ar dudalen anibendod ar Etsy.



Cawsom noson hwyliog yn gwneud moctêls gyda Mair Nutting. Roedden yn flasus iawn. Perffaith ar gyfer mis Ionawr sych!



Iechyd da!

pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 11

# Cletwr

Ydy pawb yn cuddio yn y gwely oherwydd y tywydd ar hyn o bryd? Mae'n gynllun doeth, i fod yn onest, ond mae Cletwr yn dra thawel! Cofiwch alw i mewn am banad unwaith rydych chi wedi codi o'ch trwmgwsg.

Newyddion da i'r sawl sy'n hoff o farmalêd. Mae orenau Seville nôl mewn stoc - ond dim ond am ychydig wythnosau. Brysiwch os ydych chi am wneud marmalêd eleni. A chofiwch fod dewis da o fwyd lleol ar gael yn Cletwr: llaeth Jenkins, cig o Benparcau a Rob Rattray, tatws a llawer mwy (ond dim orenau Seville lleol). Does dim angen i chi fynd i'r dre fawr i gefnogi cynhyrchwyr lleol.

Rydyn ni'n dal yn awyddus i glywed gan bobl sydd am drefnu digwyddiad yn Cletwr. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gobeithio cael noson 'Meic Agored' (*open mic*) dan arweiniaeth Andy Lloyd Williams yn y dyfodol agos. Cadwch lygaid ar ein tudalen Facebook am fanylion. Cofiwch hefyd am ein sesiynau "Dal Ati' ar fore Sadwrn cyntaf a'r trydydd bob mis, ar gyfer y rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg. Croeso cynnes i bawb.

A beth am gêm o D&D "Daeargelloedd a dreigiau"? Mae Chloe yn gwneud cynlluniau am noson yn y dyfodol agos hefyd.

Ydych chi'n ofalwr di-dâl? Digwyddiad arbennig ar 7fed o Fawrth, yn Cletwr, cyfle i chi gwrdd â Thîm Gofalwyr Gydol Oes a Chymorth Cymunedol Cyngor Ceredigion am sgwrs dros banad. 1.30 - 3.30. Neu cewch gysylltu â nhw yn uniongyrchol ar 01545 574200.

Clwb Cosy. Dyma'r grŵp prynu olew Cletwr, ar agor i bawb yn yr ardal. Rydym yn archebu olew gwres mewn swmp pedair gwaith y flwyddyn, fel arfer gyda disgownt o tua 5c y litr. Mae archeb mis Ionawr newydd fynd i mewn. Dyddiadau cau am weddill y flwyddyn yw Ebrill 26, Gorff. 26 a Thachwedd 1af. Cysylltwch â cosy@cletwr.com os ydych chi am ymuno â'r grŵp. Mae mwy o fanylion ar ein gwefan.

Dyna i gyd am y mis 'ma, ond gair i'ch atgoffa - bydd croeso cynnes i unrhyw un sydd am ddechrau fel gwirfoddolwr yn Cletwr. Efallai cwpl o oriau bob wythnos yn helpu yn y caffi neu'r gegin?



## Premiere Llwyddiannus!

Cafwyd prynhawn arbennig er gwaethaf y tywydd a thoriad yn y cyflenwad trydan, wrth i'r gymuned gasglu yng Nghletwr i wylio'r Animeiddiad Digidol "Beth yw Cymuned" am y tro cyntaf.

Paratowyd y ffilm fer hon gan ddefnyddio sain a delweddau wedi'u casglu dros y 6 mis diwethaf o fewn ein gweithdai a digwyddiadau ar draws y gymuned. Ariannwyd y prosiect hwn yn garedig gan Gronfa Eleri, Ymddiriedolaeth Anna Evans a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r artistiaid Charlie Carter, Brian Swaddling, Dysgu Bro, Heledd Wyn Jones, Jacob Thomas, holl Wirfoddolwyr, Bwrdd a Staff Cletwr, ac yn bennaf pob aelod o'r gymuned a gyfrannodd i'r prosiect arbennig ac unigryw yma. Cafodd y prosiect ei guradu a'i gyfarwyddo gan Rachel Behan.

Os na chawsoch gyfle i weld y darn yn ei gyfanrwydd bydd y ffilm ar gael o ddydd Llun, 5 Chwefror am 11:15yb ar YouTube (https://youtu.be/Tr5NJPTq-Hw).

# Sesiwn Nos Wener



Y grŵp bywiog lleol, Bwca oedd yn diddanu'r gynulleidfa niferus yng nghyfarfod cyntaf Sesiwn Nos Wener am y flwyddyn, yn y Llew Gwyn ar 26 Ionawr, a defnyddiwyd yr achlysur i ddathlu cyhoeddi eu CD diweddaraf, Hafod.

Bu'n rhaid gohirio'r lansiad cyntaf yn Nhal-y-bont y llynedd am nifer o resymau ond fe aeth Bwca ati i gigio'r albwm yn helaeth yn ystod y flwyddyn a thro cynulleidfa Tal-y-bont oedd mwynhau'r arlwy y tro hwn. Mae'r casgliad hwn yn gweld Bwca yn dathlu hyfrydwch eu milltir sgwâr yn Aberystwyth a Gogledd Ceredigion.

Roedd hanner cyntaf y set yn canolbwyntio ar ganeuon o'r CD. Cyfrannwyd geiriau pedair o'r caneuon gan Phil Davies ac roedd yn brofiad arbennig i glywed rheiny yn cael eu perfformio'n fyw.

Defnyddiwyd ail hanner y noson i gyflwyno ffefrynnau Bwca ers iddynt lansio'r band, a hynny yn y Llew Du, Tal-y-bont yn Chwefror 2019. Er i'r criw o gwmpas Steff Rees newid dros y blynyddoedd, rydym yn falch dros ben o'r cysylltiad sydd rhyngom ni yma a'r grŵp.

Yn ogystal â Steff sydd ar y Gitâr acwstig ac yn canu wrth gwrs, mae'r grŵp yn cynnwys Iwan Hughes - Cajon a llais, Peter Evans – Bas, a Hannah McCarthy - Sax a llais.

Diolch iddynt am noson fywiog, a diolch i'r gynulleidfa a ddaeth i gefnogi.

Mis nesaf, ar nos Wener 23 Chwefror y gwestai arbennig bydd y canwr poblogaidd Delwyn Siôn. Mae trefniadau ar y gweill i groesawu Lowri Evans, Gwennan Gibbard a Mari Mathias cyn diwedd y tymor. Cadwch olwg ar ddyddiadur Papur Pawb am fanylion a chofiwch ddod i gefnogi.







pp Chwefror 24.qxp_Layout 1 06/02/2024 12:01 pm Page 12

# Chwaraeon a Hamdden

# Hanner canmlwyddiant




TÎM TAL-Y-BONT 1934

*Cefn, chwith i'r dde: David Lewis Edwards (Y Llew Du), Mr Jacques (Stryd y Capel), Mr Morgan (masiwn), Mr Evans (Rhiwlan), Ivor Jones (Llwynglas), Fred B Jones (Penrhiw), Allenby Jones (Tynffynnon), Dewi Parry (Goginan House), Mr Harris (Y Bwthyn), Mr D J Edwards (Defi John y Glo), Mr Jimmy Davies (Annwylfa).*
*Eistedd, chwith i'r dde: Aneurin Morgan, Ritchie Morris (Glennydd), W Llewelyn James (Tanyffordd), Leonard Slater, J. H Morgan (Maesnewydd)*
*Blaen: Eurwyn Ellis, Johnny Morgan (yr Efail)*

Clwb Pêl-droed
**Tal-y-bont**
**50**
1973 - 2023

Y tro hwn wrth ddathlu hanner canmlwyddiant atgyfodiad Clwb Pêl-droed Tal-y-bont yn 1973-74, awn yn ôl nawdeg mlynedd gyda llun o'r tîm a fu'n cynrychioli'r pentref yn ystod tymor cyntaf Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch a sefydlwyd yn 1934. Ni chafodd y tîm fawr o lwyddiant y tymor hwnnw gan gynnwys colli un gêm 16-0 yn erbyn Aberaeron.

(O.N. Mae'r llun yng nghasgliad Pickford's yn y Llyfrgell Genedlaethol. Diolch i'r Llyfrgell am y caniatâd i'w gynnwys yn *Papur Pawb*).

Ar y dde ceir llun o'r tîm presennol a dynnwyd cyn y gêm yn erbyn Borth. Er i'r bechgyn golli 1-3, maent wedi cael tymor eithaf boddhaol hyd yn hyn.



TÎM TAL-Y-BONT 2024

*Cefn, chwith i'r dde: Dyfri Cunningham, Jason Pugh, Clint Middleton, Wil Roberts, Mike Fitzpatrick, Harry Whalley, Ioan Joseph, James Graham a Jordan Roberts.*
*Blaen, chwith i'r dde: Patrick Hutton-Jones, Simon Watson-Smith, Shane Gornall, Chris Foster, Nick Smith a Tomos Benjamin.*

